# CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN TOWN COUNCIL

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan, LL330AB**
**Maer Cyng. Nia Jones Dirprwy Faer Cyng. Sharne-Marie Bellis**

**Nos Fercher, Gorffennaf y 23ain, 2025**
**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Microsoft Teams**

**Microsoft Teams Angen cymorth?**
**Ymuno gyda'r cyfarfod**
**Rhif y Cyfarfod: 396 196 427**

**AGENDA**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd
   4.1. Roedd aelodau tîm Amddiffyn Rhag Llifogydd CBS Conwy yn bresennol i drafod y Cynllun Busnes Llawn ar gyfer Llanfairfechan
   4.2. Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) Josh yn bresennol i drafod y datblygiadau cyfredol yn Llanfairfechan
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Gorffennaf yr 2il, 2025, a rhestr weithredu Gorffennaf (DLlL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn adroddiad gan Bwyllgor yr Amgylchedd ynghylch: Yr Ardal Gemau Amlddefnydd a chymeradwyo cynlluniau'r dyfodol ar gyfer y safle
7. Derbyn gwybodaeth am y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a dwyn i ystyriaeth datganiad
8. Derbyn gwybodaeth am y pwyllgor staffio a recriwtio ar gyfer rôl y Dirprwy Glerc Medi 2025
9. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo gwaith i atgyweirio'r addurndlysau
10. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Gorffennaf y 23ain, 2025

| Taliadau i'w Cyflwyno |
|---|
| 1. **Gemwaith Sylvia Kerr – atgyweirio eitemau regalia £328.95** |
| 2. **CIA Fire & Security Giatiau Clyfar - £1502.40** |
| 3. **Aelodaeth Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol – £240.00** |
| 4. **Amazon Paent gwrth-fandaliaeth - £39.16** |
| 5. **Amazon Arwyddion paent gwrth-fandaliaeth x 10 - £44.99** |
| 6. **Amazon Potiau Bedd ar gyfer y Senotaff - £42.91** |
| 7. **Llifoleuadau yr Ardal Gemau Amlddefnydd British Gas - £125.62** |
| 8. **Worldcare sgipiau £258.00** |

11. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:

0/52663 Talfor, Traeth y Gorllewin, Llanfairfechan, LL33 0BP

12. Derbyn gohebiaeth
13. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau
14. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth ac i'w cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

**Nos Fercher, Gorffennaf y 23ain, 2025**

**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7YH Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams**

**COFNODION**

**Yn bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis Cyng. Charlotte Davies Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Rhys Griffiths; Cyng. Andrew Hinchliff BEM (ar-lein ar gyfer rhan o'r cyfarfod); Cyng. Chris Jones; Cyng. Christine Roberts; Cyng. Preben Vangberg. Clerc y Dref: Jayne Neal; Dirprwy Glerc y Dref Callum Morrison**

**1. Croesawodd y Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis bawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol Cytunwyd i recordio'r cyfarfod er mwyn llunio'r cofnodion**

**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)**

**Cyng. Penny Andow (Cynghorydd Tref a Sir); Cyng. Leena Farhat; Maer Nia Jones Penderfynwyd derbyn a nodi**

**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)**

**Eitem 11 Bu i'r Cyng. Andrew Hinchliff ddatgan diddordeb personol. Derbyniwyd nad oedd hyn yn rhagfarnus ond os byddai'r drafodaeth yn datblygu, bydd y Cynghorwyr yn gadael yr ystafell. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**4.1. Roedd Owen Conry, Rheolwr Perygl Llifogydd a Seilwaith CBS Conwy yn bresennol i sôn am gynllun diogelu'r arfordir arfaethedig, sydd yn rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Rhoddwyd crynhoad o'r cam cynllunio cyfredol:**

**a. Cam Cynllun Busnes Llawn**

**Mae Cynllun Busnes Llawn (FBP) yn golygu fod gennych chi gynllun gyda chynnig a wnaeth nodi datrysiad i fynd i'r afael â'r broblem. Fel pob rhan o'r arfordir ledled Cymru, mae llifogydd ond am waethygu. Mae cynnydd yn lefel y môr a newid mewn hinsawdd yn heriau ac mae disgwyl y bydd lefel y môr yn cynyddu rhwng 800 milimedr (2 1/2 troedfedd) a 1.2 medr (4 troedfedd) ar gyfer y 100 mlynedd nesaf. At hyn, mae stormydd yn gwaethygu, yn enwedig yn Llanfairfechan lle'r ydym yn agored i wyntoedd gogleddol, gogledd orllewin a gogledd ddwyrain. Mae gennym bwysedd isel a llanw uchel. Dyma lle mae'r adran hon o'r arfordir yn eithaf bregus.**

**b. Cefndir y prosiect: Cynhaliwyd sesiwn wybodaeth gymunedol ar Fawrth yr 20fed, 2024, lle'r oedd cynnig cychwynnol i gynyddu uchder y prif forglawdd o'r caffi i'r parc sglefrio. Roedd barn gymysg ynghylch y cynllun ac roedd rhai pobl yn ei erbyn oherwydd roedd yn golygu cynyddu uchder y morglawdd mewn gwirionedd. Fe soniwyd am bryderon ynghylch rhwystro mynediad a rhwystro golygfeydd. Fodd bynnag, bu i rai eraill gytuno gyda'r syniad y byddai, wedi'i ategu gan wyddoniaeth, yn lleihau'r llifogydd yn yr eiddo dan sylw. Pwynt allweddol yw mai nod y cynllun hwn yw lleihau llifogydd ond peidio â'i rwystro'n gyfan gwbl, gan y byddai hyn yn amhosibl.**

**c. Ebrill y 9fed 2024 digwyddiad llifogydd a gwaith dilynol Bu i ddigwyddiadau naturiol effeithio ar Brosiect Amddiffynfeydd Arfordirol Llanfairfechan pan fu llifogydd difrifol, yn sgil cymysgedd o'r gwyntoedd a llanw uchel dros ben. O ganlyniad i'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y digwyddiad, fe wnaeth y tîm ail-gychwyn y drafodaeth gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a gofynnwyd i'r tîm am ail-fodelu'r prosiect gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn y digwyddiad llifogydd. Cafodd hyn ei gyflawni gan arbenigwyr yn y maes sy'n gallu modelu deilliannau'n fathemategol yn ogystal â lefel yr angen o fewn y paramedrau newydd a oedd wedi'u cyflwyno. Os allwch chi gyfrifo difrod (o ran costau) os bydd llifogydd mewn tŷ, gallwch gyfrifo'r gwerth parhaol ynghlwm â hynny. Nid oes ots beth gaiff ei gynllunio, diwedd y gân yw'r geiniog. O ganlyniad i'r broses hon, datblygwyd Cynllun Busnes Llawn newydd fel a ganlyn:**

- **i.** **Bydd cynllun lliniaru llifogydd yn Llanfairfechan, ac mae hyn ar y gweill i'w weithredu yn y flwyddyn ariannol hon hyd nes caiff y Cynllun Busnes Llawn ei gymeradwyo (gan gynnwys yr holl drwyddedau a'r cymeradwyaeth cynllunio)**
- **ii.** **Defnyddir dadansoddiad cost/budd (cymhareb) er mwyn cyfrifo cost posibl y difrod (llifogydd mewn eiddo, busnesau a seilwaith) o'i gymharu â chost cynllun newydd arfaethedig i gyfyngu'r difrod drwy gydol oes y prosiect. Er enghraifft, ni fyddai'n hyfyw i wario £500mil i arbed difrod gwerth £250mil. Mae'r nifer llai o anheddau yn golygu y bydd llai o gyllid na Thowyn neu Fae Cinmel lle mae miloedd o anheddau mewn perygl.**
- **iii.** **Cynyddu uchder y brif wal fel bod yr uchder yr un fath ar hyd y prom**
- **iv.** **Cynyddu lled y brif wal yn ogystal â'r uchder er mwyn darparu sefydlogrwydd**
- **v.** **Cynyddu uchder y wal eilaidd ger y pen dwyreiniol i greu parth sblash mewn llifogydd a fyddai'n lliniaru'r llanw uchel**
- **vi.** **Cynyddu uchder y ffyrdd ochr gyda thwmpathau i rwystro llwybrau llifo tuag at gefn y tai.**

vii. **Gosod seilwaith giât llifogydd ar ben dwyreiniol y prom i'w ddefnyddio mewn llifogydd difrifol er mwyn amddiffyn eiddo sydd mewn perygl o niwed.**

**Mae'r tîm wrthi'n cynllunio sesiwn wybodaeth i breswylwyr ym mis Medi lle caiff y Cynllun Busnes Llawn newydd ei gyflwyno, a bydd cyfle i'r preswylwyr rannu eu barn. Fodd bynnag, yn ystod y broses gynllunio bydd modd i breswylwyr gynnig sylwadau ffurfiol, a dyma pam ei bod yn anodd pennu amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect. Mae'n rhaid mynd i'r afael ag unrhyw arsylwadau ffurfiol yn ystod y broses gynllunio cyn caiff caniatâd ei gymeradwyo. Mae angen sicrhau cydbwysedd, ac mae'n bosibl y bydd angen ystyried cyfaddawdu – os caiff y wal ei gynyddu, bydd yr anheddau'n fwy diogel ond mae hyn ar draul rhai newidiadau i'r vista. Mae CBS Conwy yn bryderus iawn i weithredu'r cynllun hwn. Mae gobaith y bydd modd cyflwyno'r Cynllun Busnes Llawn i'r adran gynllunio ynghyd â'r preswylwyr er budd y gymuned sy'n byw ger y môr.**

**Mae dadl ynghylch cynnal y digwyddiad galw heibio cyn y bydd yn cael ei gyflwyno i'r adran gynllunio. Mae'r cynllun yn cynyddu uchder y wal, cynyddu uchder y wal eilaidd, gosod rhwystrau llifogydd y gellir eu dad-osod a'u hagor neu eu cau yn dibynnu ar yr amodau a'r gwaith ar y ddwy ffordd rhwng Ffordd Glanmôr a'r promenâd. Bydd gan y ddau eiddo ar ben y prom amddiffyniad eiddo unigol yn sgil eu bregusrwydd o ran llifogydd. Dydy'r sefyllfa ddim am wella i'r ddau eiddo hwn, fodd bynnag, mae pawb yn gyfrifol dros eu heiddo eu hunain a gellir cynnig cyngor i berchnogion tai ynghylch diogelu eu heiddo.**

**<u>ch. Statws cyfredol ar gyfer y prosiect</u> Mae'r cynllun wedi'i adolygu. Yn y cyfamser, bu'r tîm yn gweithio ar drwyddedu a chaniatáu a bu cryn dipyn o ohebiaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Eu nod cyffredinol nhw ydy diogelu'r amgylchedd. Un o'r prif broblemau ydy gwasgfa arfordirol – peidio â gadael i natur ddilyn ei thrywydd. Os ydych chi'n cyflawni rhywbeth mewn un ardal, eu barn nhw ydy bod yn rhaid lliniaru i sicrhau nad ydy'r amgylchedd naturiol yn dioddef. Gan hynny, mae trwyddedu a chynllunio morol yn eithaf cymhleth yn y cynllun hwn. Nes caiff caniatâd cynllunio llawn ei gymeradwyo, trwydded forol ei chyflwyno, y prosiect ei dendro, a bod contractwr yn barod i gychwyn arni, nid oes modd cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru.**

***<u>Cwestiwn 1 Beth ydy'r cynlluniau ar gyfer Traeth y Gorllewin, rhan Orllewinol yr afon a'r anheddau ar y pen hwnnw.</u>***

**Yn debyg i'r ddau dŷ i'r dwyrain, rydym yn cynnig diogelu eiddo unigol ar gyfer y tai i'r gorllewin felly does yna ddim byd wedi'i newid o'r syniad cynllun busnes cychwynnol yn yr ardal hon.**

***<u>Cwestiwn 2 Grwynau ar ardal y traeth.</u> Oes modd ail-osod yr hen grwynau oherwydd roedden nhw'n effeithiol dros ben am flynyddoedd maith gan gadw'r cerrig yn eu lle, a chynnig amddiffyniad o ganlyniad?*** **Doedd y grwynau heb eu gosod er mwyn lleddfu effaith y llanw, ond fe wnaethon nhw gadw'r cerrig ac ati ar y traeth yn eu lle. Mae'r dylunwyr wedi bwrw golwg ar yr holl opsiynau a bydd Owen yn holi pam na chafodd grwynau eu hystyried i ddatrys y broblem. Bu pryderon ynghylch rhan o'r wal sydd wedi'i hollti ar draws, a gellir gweld ei fod wedi symud, hefyd, y canllaw ger y pwynt mynediad wrth y pwll hwylio. Sicrwydd y gellir ystyried atgyweiriadau asedau arfordirol ar gyfer cynnal a chadw parhaus. Mae'n rhaid cofio bod angen i'r gost gyd-fynd â'r angen, a bydd yn rhaid cyflwyno datrysiadau gyda dadansoddiad o gost/budd. Nodwyd ei fod yn bwysig gofalu bod y traeth yn dal yn ddeniadol i ymwelwyr a phreswylwyr – mae'n ymwneud ag arian a beth ellir ei fforddio. Bydd yn rhaid sicrhau cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru gyda 15% gan CBS Conwy. Mae erydiad arfordirol yn broblem sylweddol ar gyfer y cyngor sir – roedd yn rhaid addasu pob adran bron eisoes a bydd angen parhaus i addasu yn sgil newid mewn hinsawdd. Soniwyd am ddifrod arall i'r canllaw ger y grisiau wrth y pwll hwylio a chaiff yr wybodaeth ei hanfon dros e-bost at y clerc.**

***<u>Cwestiwn 3 Pam gafodd y wal eilaidd ei gadael am 15 mis ac mae'n dal yn anaddas i'w ddiben?</u>***

***Mae'n gywilyddus bod hyn wedi cymryd cyhyd, ac nid yw wedi'i gwblhau o hyd. Doedd y dasg ddim yn cynnwys unrhyw ardal arall oni bai am y cerrig copa coll ac ni gyflawnwyd unrhyw wiriadau. Pam na aseswyd yr holl wal? Doedd y gweithwyr a gafodd eu penodi ar gyfer y dasg ddim yn ymwybodol o beth oedd yn digwydd gyda'r holl wal. Pam nad ydym yn bwrw golwg ar y broblem ehangach a sicrhau bod y wal yn addas i'w ddiben. Beth oedd y rheswm am adael y cerrig copa am gyhyd, yn enwedig pan roedd yn fater iechyd a diogelwch? Wnaeth y llifogydd ddigwydd oherwydd na wnaeth CBS Conwy gwblhau'r prosiect?***

**Roedd CBS Conwy yn bwriadu codi'r morglawdd, ond bu i'r llifogydd yn Ebrill effeithio ar y sefyllfa a rhaid oedd ail-asesu'r cynllun.** ***Beth ydy uchder arfaethedig y wal fewnol?*** **Ddim yn hysbys ar hyn o bryd ond bydd yr wybodaeth ar gael yng nghyfarfod gwybodaeth Medi.**

***Cwestiwn 4 Adrodd am doriad yn y morglawdd ond ni dderbyniwyd ymateb gan y tîm. Mae'n bwysig gweithredu pan fo'r preswylwyr yn adrodd am broblem.*** **Caiff uchder a lled y wal newydd ei gynyddu er mwyn gwella sefydlogrwydd Nid ydym yn ystyried nifer o flynyddoedd – mae'n rhan o'r cynllun ariannol ar gyfer eleni. Cynhelir archwiliad i fwrw golwg ar yr holl broblemau posibl a sut mae modd mynd i'r afael â nhw, caiff hyn ei gyflawni unwaith y bydd modd bwrw iddi gyda'r cynllun cynllunio a'r trwyddedu morol. Caiff adborth ei gyflwyno drwy'r clerc.**

***Cwestiwn 5 cwblhau 'grasscrete' yn y maes parcio*** **Mae hyn wedi'i ohirio yn sgil ymholiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Mae rhywfaint o wrthdaro ynghylch a oes angen hyn ar hyn o bryd ac felly ni fydd modd bwrw iddi gyda'r 'grasscrete' nes y bydd y mater wedi'i ddatrys.**

***Cwestiwn 6 Beth ydy'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r prosiect?*** **Dylai fod yn bosibl trefnu yswiriant drwy'r cynllun 'Flood-Re'. *Mae'n ymddangos nad ydy'r yswiriant yn werth chweil gan fod y gormodedd mor uchel.* Cynllunio yn y mis neu ddau nesaf: sesiwn galw mewn ym mis Medi, mae'r broses drwyddedu ar waith, bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn drafftiau drwy gydol y broses ac mae ar y cynllun ariannol ar gyfer eleni. Mae'n dibynnu ar ba mor hir fydd y broses gynllunio – po fwyaf o arsylwadau sydd angen eu hymdrin â nhw, yr hiraf bydd yn ei gymryd. Mae'r cyfnod byrraf oddeutu 6 wythnos, ond mae oedi yn aml iawn. Mae'r cynllun ei hun yn weddol ddidrafferth felly dylid ei gwblhau ymhen y flwyddyn. Dydy Bae Colwyn heb ei gwblhau eto ond roedd yn brosiect sylweddol, fodd bynnag mae'n dangos y cyflymder.**

***Cwestiwn 7 A fydd y Cynllun Busnes Terfynol yn cael ei gyflwyno cyn diwedd yr haf?*** **Na – dim ond mor gyflym ag y caniataodd y broses gyfreithiol y gall symud. Ni ddylid beio unrhyw adran, ond mae'n debyg y bydd y broses yn araf deg oherwydd mae'n rhaid mynd i'r afael ag unrhyw arsylwadau cyn bod modd cyflwyno'r Cynllun Busnes Llawn.**

***Cwestiwn 8 Llifogydd o'r twnnel bach, beth ellir ei wneud am hyn?*** **– Does dim modd i'r dŵr lifo allan gan fod y falfiau fflap wedi'u dal ar agor. Mae'n rhaid hysbysu Dŵr Cymru am hyn, mae CBS Conwy wedi adrodd am hyn ond mae hefyd yn bwysig dros ben i'r preswylwyr adrodd amdano yn ogystal. Manylion yma: : Adrodd am broblem | Dŵr Cymru Welsh Water Mae yna adran 'dolenni defnyddiol' ar wefan y Cyngor Tref am nifer o bwyntiau adrodd i asiantaethau. Gellir anfon e-bost at y clerc os oes well gennych chi. Nodwyd bod Owen yn fodlon dychwelyd i siarad gyda'r Cyngor Tref ym mis Medi i adrodd am y cynnydd sydd wedi'i gyflawni. Clerc i drefnu.**

---

**4.2. Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) yn bresennol i drafod datblygiadau cyfredol yn Llanfairfechan**

**Roedd hyn yn gyfle i'r Cynghorwyr godi unrhyw bryderon neu rannu unrhyw wybodaeth am faterion yr heddlu yn Llanfairfechan ac i dderbyn y diweddaraf am brosiectau cyfredol.**

**a. Soniwyd y bu'n flwyddyn llawn amrywiaeth. Bu problemau gyda phobl ifanc ar feiciau trydan. Mae gwaith wedi'i gyflawni i leihau'r broblem ond mae yna unigolion o hyd sydd angen rhoi stop arnyn nhw. Mae'r bobl ifanc wedi'u rhybuddio am eu hymddygiad diofal. Estynnwyd diolch i gymuned Llanfairfechan am eu cymorth i leihau'r nifer o droseddau yn y dref – diolch byth mae'n dal yn gymuned gyda chyfradd troseddau isel.**

**Mae Heddlu Gogledd Cymru'n ddiolchgar i'r gymuned wrth iddyn nhw gydweithio'n gadarnhaol gyda'r heddlu i ofalu bod y gymuned yn ddiogel. Rhoddwyd sicrwydd o ran os caiff gwybodaeth ei derbyn, bydd yr heddlu yn mynd i'r afael â'r mater. Nodwyd bod Llanfairfechan yn ôl pob tebyg yn un o'r pentrefi heddychlon, braf, tawel Cymreig olaf yng Ngorllewin Conwy. Os oes gan unrhyw un unrhyw wybodaeth, mae croeso ichi gysylltu gyda'r PCSO, adrodd amdano ar-lein neu ffonio 101 gydag unrhyw bryderon.**

**b. Caiff gor-yrru ei fonitro ar hyn o bryd, ac mae'r Prosiect Plismona Mini (plant oedran cynradd) wedi bod ynghlwm â chofnodi'r defnydd o Ffordd Penmaenmawr. Bu i swyddog yr heddlu mini ddal rhywun yn teithio 42 mya gyda'r gwn cyflymder. Mae'r heddlu mini wedi bod yn dda iawn, ac mae'n ymddangos fel eu bod nhw wedi cael amser gwerth chweil yn ymweld â'r Cyngor Tref. Roedd ganddyn nhw ddigonedd o gwestiynau ar y diwrnod pan wnaethon nhw ddychwelyd i'r ysgol. Fe wnaeth y sesiwn orffen ychydig yn hwyr oherwydd roedd cymaint o gwestiynau ynghylch sut mae pethau'n gweithio. Mae gêm bêl-droed wedi'i threfnu rhwng yr heddlu mini a'r heddlu go iawn. Soniwyd ei fod yn dda cael y lefel hwnnw o ymgysylltiad gyda'r grŵp oedran hwn a'r teimlad yw bod y dyfodol mewn dwylo da gyda nhw.**

**c. Pryderon cyfredol am ddefnydd cyffuriau er mwyn pleser ac mae'r heddlu yn mynd i'r afael â'r defnydd o cocaine a cannabis. Yr her fwyaf ydy'r defnydd o ketamine ymhlith pobl ifanc, yn enwedig gyda'r materion iechyd dwys sy'n sgil-effeithiau o'i ddefnyddio. Does gan yr heddlu ddim digon o fanylion am y defnydd yn y dref ar hyn o bryd ac maen nhw'n gofyn am gymorth gan unrhyw un sy'n ymwybodol o'r unigolion sydd ynghlwm â'i gyflenwi. Un pryder sylweddol ydy bod y cyffur yn aml iawn yn cael ei dorri gyda gwenwyn llygod mawr sy'n achosi effeithiau mwy difrifol byth. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa y gellir cyflwyno adroddiadau'n ddi-enw neu eu cyflwyno drwy gynrychiolwyr etholedig**

y Cyngor Tref. Caiff y cyffur ei rannu gyda phlant mor ifanc â 12 oed a heb wybodaeth am ddos felly mae hyn yn arwain at y defnyddwyr yn gorfod mynd i'r ysbyty.
ch. Mae gwarantau wedi'u gweithredu yn y 12 mis diwethaf, ond gallai'r heddlu ond wneud gwahaniaeth gyda chymorth y gymuned. Mae'r Cynghorwyr Tref yn chwarae rhan allweddol yn cynorthwyo preswylwyr i adrodd am bryderon i'r heddlu ac mae cefnogaeth dda yn Llanfairfechan gyda Chynghorwyr Tref – mae'r bartneriaeth rhwng y Cyngor Tref a Heddlu Gogledd Cymru'n werth chweil.
*Cwestiwn 1 Ydy'r heddlu'n targedu'r rheiny sy'n gwerthu neu'r defnyddwyr?* Ydyn, maen nhw'n canolbwyntio ar y rheiny sy'n gwerthu ond mae gwybodaeth am y defnyddwyr yn ddefnyddiol hefyd, nid i droseddoli ond i'w hymgysylltu mewn gweithgareddau dargyfeiriol. Gallai'r heddlu gyfeirio at nifer o wahanol asiantaethau cymorth. Mae'r neges am gyffuriau wedi'i rhannu ag ysgolion. Cafodd ei rannu yn y clwb ieuenctid hefyd ychydig fisoedd yn ôl, ond mae'r dull hwn yn parhau. Nodwyd bod y bartneriaeth rhwng y Cyngor Tref a Heddlu Gogledd Cymru'n werth chweil ac yn help i gadw Llanfairfechan yn ddiogel ac atal troseddau. Estynnwyd diolch i'r PCSO am fod yn bresennol a'i waith.
*Cwestiwn 2 Beth sy'n digwydd am fandaliaeth yng nguddfannau Morfa Madryn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar dir yr eglwys?* Mae'r cuddfannau yn fater anodd oherwydd nid oes modd eu gweld o unrhyw eiddo felly'r unig ffordd fyddai dal pobl wrthi. Nodwyd bod nifer o'r Cyngor Tref o amgylch yr ardal ar adegau amrywiol a ni welwyd unrhyw ymddygiad sy'n peri pryder. Mae'r Cyngor Tref wedi trefnu atgyweirio'r cuddfannau gyda chaeadau pren mwy gwydn felly gallai hyn leihau'r broblem. Ni ellir gwneud llawer mwy. Mae tir yr eglwys yn fwy o broblem gan fod pobl ifanc yn ymgynnull ac mae adroddiadau am bobl yn defnyddio cyffuriau. Cais gan y PCSO i dorri'r gwrychau uchel i helpu i fynd i'r afael â'r broblem. (mae'n well cyflawni hyn ym mis Medi, ar ôl tymor nythu'r adar).– awgrymwyd cysylltu gyda'r eglwys a gofyn am gyflawni hyn. Estynnwyd diolch i'r PCSO am ddod i'r cyfarfod ac am ei waith yn Llanfairfechan Penderfynwyd derbyn a nodi popeth

Symudwyd Eitem 6. i'w drafod yn gynharach ar yr agenda er budd y PCSO

Derbyn adroddiad gan Bwyllgor yr Amgylchedd ynghylch: Yr Ardal Gemau Amlddefnydd a chymeradwyo cynlluniau'r dyfodol ar gyfer y safle

1. Paent ac arwyddion gwrth-fandaliaeth Mae arwyddion Saesneg wedi'u gosod oherwydd mae'n rhaid eu gosod ychydig o ddiwrnodau cyn peintio. Gallwn archebu rhai Cymraeg gan Sional am £47.50 a byddwn yn eu gosod ymhen wythnos. Mae cwmni Peintio CTH wedi cynnig peintio'r ardal am £300. Cytunwyd peintio holl gopaon y ffensys gan gynnwys y ffens ganolog i atal pobl rhag dringo drostyn nhw.
2. Codi tâl dros yr haf Cytunodd pwyllgor yr amgylchedd i newid y costau ar gyfer preswylwyr sy'n aelodau dros wyliau'r haf. Bydd y canlynol ar waith o Awst y 1af hyd at Fedi'r 5ed
Bydd y cwrt tenis ac amlddefnydd am ddim i'r preswylwyr sy'n aelodau. Byddwn yn rhannu gwybodaeth i annog preswylwyr i ymaelodi. Bydd y cae pêl-droed 3g ar gael am gyfradd ostyngol o £5 yn ystod y dydd a £15 gyda'r nos ar gyfer preswylwyr sy'n aelodau. Dylid nodi bod y cae 3g rhataf yn yr ardal yn £30 felly mae hwn yn arbediad hael dros ben.
Os bydd peli yn mynd drosodd i'r cwrt arall, bydd aelod o staff yn nôl y bêl a gallwch ei nôl o Neuadd y Dref. Derbyniwyd llythyr gan breswylydd o Benmaenmawr ond mae'r Cyngor Tref yn nodi mai dim ond preswylwyr Llanfairfechan fyddai'n elwa o'r gostyngiad oherwydd mae'n rhaid i'n cyllid ganolbwyntio ar ein hardaloedd ward.
3. Gosod Teledu Cylch Cyfyng Y cynllun ydy gosod Teledu Cylch Cyfyng, ond mae dyfynbrisiau'n cael eu casglu ar hyn o bryd. Cytunwyd y gellir bwrw iddi gyda'r gwaith hwn yn ystod gwyliau'r haf drwy gyswllt e-bost ac yna ei gadarnhau yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.
Cytunwyd nad yw'r teledu cylch cyfyng yn ymwneud â throseddoli pobl – caiff ei ddefnyddio i atal ymddygiad di-hid ac adnabod a rhybuddio pobl gyda llythyr lle'n bosibl. At hyn, mae swyddog Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol Conwy, Rihanna, bob amser yn barod ei chymwynas ac yn barod i gysylltu gyda theuluoedd neu gallai'r PCSO Josh fod wrthlaw i gynnig help llaw. Gallai'r Cyngor Tref ymgeisio i gronfa PACT Heddlu Gogledd Cymru i helpu gyda chostau'r Teledu Cylch Cyfyng.
Cynigwyd gan y Cyng. P Vangberg Eiliwyd gan y Cyng. C Roberts Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi

5.Derbyn a chymeradwyo cofnodion Gorffennaf yr 2il, 2025, a rhestr weithredu Gorffennaf (DLlL1972 Atodlen 12)

Dosbarthwyd y cofnodion yn flaenorol ac fe nodwyd eu bod wedi'u darllen. Dim materion yn codi.
Trafodwyd y rhestr weithredu.

| | Date: July 2025 Action list | | | NFI = no further information |
|---|---|---|---|---|
| | Item: | Info | Latest email | Progress |
| | **Repairs and reports** | | | |
| 1 | Bus stop damage Y Bont east | NFI | 25/04/2025 | Work is due to take place to clean and maintain the shelters. Green roof fitted at the heath and due at y bont as well |
| 2 | Councillor Allowances | Update | | If needed, please complete forms sent by email 10/08 |
| 3 | Phone Boxes | Update | | Clerk has raised our objections to the removal of these payphones and awaits a response |
| 4 | Pagoda shelter | Reminder | | paint is available to complete this work |
| 5 | Community Skips and Litter picks | Update | | A reminder about the skip, litter pick and family fun day in Pendalar. A good one to attend if you are a Pandy ward councillor |
| 6 | Sub committee meeting info | NFI | | meetings need to be booked - will put together a draft plan at the Sept meeting |
| 7 | Llanfairfechan TC Gazebo project | NFI | | forms and agreements need updating. Project needs to log number of hirings through the year for analysis |
| 8 | Audit process | Update | | External Audit submitted on 4th July - awaiting result |
| 9 | IT hardware and software | Update | | Webcam needed and network box still unresolved |
| | Planters on promenade and boats | NFI | | Nia and James have completed the painting. Conwy CBC planted annuals in the pots |
| | **Events dates for diary 2025/26** | | | |
| 1 | National Play Day /Sandcastle day | NFI | | Sunday 3rd August 11:30am - 2:30pm |
| 2 | Pendalar Community Day | NFI | | Wednesday 6th August 9am to 3pm |
| 3 | Food and Artisan Markets | Update | | Return on Sunday September 21st with a Harvest themed market - all welcome and a good opportunity to meet the electorate |
| 4 | Fireworks and lantern parade | NFI | | Saturday 8th November event TBC |
| 5 | Llanfairfechan Remembrance | NFI | | Sunday 9th November |
| 6 | Festive Fayre | NFI | | Event Sunday 7th December - please add to diary now and send in any new ideas for the event |
| | **Current development projects** | | | |
| 1 | Promenade Car Park | NFI | 29/05/2025 | email from Dylan states the completion is due. Grasscrete not happening due to planning objection by NRW |
| 2 | Llanfairfechan Flood Protection | on agenda | 23/05/2025 | coping stones work is completed; information to share about flood project |
| 3 | Llanfairfechan Town Football Club | NFI | 23/05/2025 | Conwy CBC legal have agreed to work a lease up within 6 months |
| 4 | Llanfairfechan MUGA CCTV installation | on agenda | 29/05/2025 | decision needs to be made about pricing and cctv |
| 5 | Replacement Local Development Plan | on agenda | 03/07/2025 | new map has been shared - query about Penmaen Park and school |
| 6 | Fruit Trail and Tree planting | Update | | Co-op manager will be buying the trees and will arrange a planting session with Incredible edibles |
| 7 | Benches project | NFI | | to be discussed at September meeting / assets task and finish group meeting needed |

**Eitem 3 Blychau ffôn mewn perygl o gael eu tynnu.** **Mae'r Cyngor Tref wedi gofyn iddyn nhw gael eu cadw ond maen nhw hefyd wedi dweud os cân nhw eu tynnu, maen nhw am gadw un Pendalar ar gyfer y diffibriliwr.**

**Eitem 5 nodyn atgoffa am Ddiwrnod i'r Teulu a sgip Pendalar** **Mae croeso mawr i wirfoddolwyr**

**Eitem 9 Caledwedd a meddalwedd TG** **Mae angen symud ymlaen gyda'r prosiect blwch rhwydwaith. Mae cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer Dydd Llun 28 Gorffennaf am 11yb**

**Eitem 7 Gwirfoddolwyr i archwilio'r meinciau** **Sesiynau ym mhen Uchaf ac Isaf y dref. Cysylltwch gyda'r Clerc os hoffech chi fod yn rhan o hyn. Bydd yn galluogi'r Cyngor Tref i flaenoriaethu pa feinciau fydd angen eu tynnu a'u hadnewyddu**

**Cynigydd Cyng C Davies Eilydd Cyng R Griffiths Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**7.Derbyn gwybodaeth am Gynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) ac ystyried datganiad**

**Cafodd map ar-lein ei rannu a'i drafod – Maps@Conwy. Unwaith byddwch ar y map, cliciwch ar y fwydlen Go To yna Go to a Town ac yna dewiswch Llanfairfechan. Dyma fap sy'n dangos safleoedd gwreiddiol yr ymgeiswyr a beth sydd wedi digwydd iddynt. Os byddwch yn clicio ar y blociau lliw gallwch weld a ydynt yn gyfredol neu wedi'u tynnu i ffwrdd.**

**Mae'r safleoedd dewisol fel a ganlyn:**

- **Safle Cae Ffynnon – hanner y safle**
- **Darn bach ger Cae Ffynnon**
- **Parc Penmaen – prif ran y parc ac NID y cae yr ydym eisoes wedi gwneud sylwadau arno ar gyfer cais cynllunio 0/51305.**
- **Nodwyd hefyd bod cae'r eglwys bellach yn cael ei ystyried**

**Y safleoedd sydd wedi'u gwrthod ydy:**

- **Ysgol Pant y Rhedyn a The Heath**
- **Cae yng nghefn Gorwel**
- **Tir yr eglwys – uwch ben ardal yr eglwys**

**Bydd y tîm CDLlA yn dod i'n cyfarfod nos Fercher 10/09/2025 gyda manylion pellach. Gofynnwyd i'r Cynghorwyr fod yn barod gyda'u barn ac ymholiadau ar gyfer y sesiynau ym mis Medi.** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**8.Derbyn gwybodaeth am y pwyllgor staffio a recriwtio ar gyfer rôl y Dirprwy Glerc Medi 2025**

**Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn cadarnhad bod angen recriwtio yn agored ar gyfer y swydd hon. Caiff hysbysebion eu paratoi er mwyn recriwtio ym mis Awst a chynnal cyfweliadau ym mis Medi gyda'r gobaith y bydd popeth wedi'i gwblhau erbyn Medi 30$^{ain}$.** **Cynigydd Cyng C Davies Eilydd Cyng R Griffiths Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**9.Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo gwaith i atgyweirio'r addurndlysau**

**Roedd hyn wedi'i drafod a'i gymeradwyo dros dro drwy e-bost gan fod y gwaith yn un brys.**

Cynigydd Cyng C Jones Eilydd Cyng A Rhys Jones     Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi.

**10.Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer Gorffennaf 23ain, 2025.**

Cymeradwywyd pob un heb unrhyw faterion yn codi

Cynigydd Cyng C Jones Eilydd Cyng C Roberts     Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi.

**11. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio**

0/52663 Talfor West Shore Llanfairfechan – dim sylwadau

**12. Derbyn gohebiaeth**

**1. Ffioedd parcio dros nos a chwestiynau gan S4C a BBC Cymru.** Derbyniwyd e-bost gan drigolyn yn gofyn i'r Cyngor Tref am gais i weld ei 'Asesiad Effaith' mewn cysylltiad â Ffioedd Maes Parcio Traeth Llanfairfechan o dan delerau 'Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant' Llywodraeth Cymru. Mae'r trigolyn yn credu y dylai pobl leol allu parcio ym maes parcio eu traeth lleol AM DDIM gyda'r nos fel nad ydy'r gost yn dod yn rhwystr sy'n atal pobl rhag defnyddio'r traeth i wella eu Hiechyd Meddwl a Lles. Atebodd y Clerc drwy e-bost a chynnwys dolenni fel bod modd i'r trigolyn gysylltu yn uniongyrchol gyda CBS Conwy. Gan nad ydy'r Cyngor Tref yn cymeradwyo'r ffioedd dros nos, roedd e-bost blaenorol wedi'i hanfon at CBS Conwy yn codi'r mater o ffioedd dros nos ac roeddent wedi derbyn gwybodaeth yn ôl bod y ffioedd er mwyn gwneud yn siŵr bod y maes parcio yn gweithredu'n deg fel y meysydd parcio eraill yng Nghonwy gan nad oes yr un maes parcio am ddim dros nos.

Yn ogystal â'r e-bost hon, roedd BBC Cymru a S4C wedi gwneud cais am sylwadau gan Gyngor Tref Llanfairfechan ynglŷn â chyflwr y maes parcio, yn benodol yr wyneb dros dro a'r cerrig mawrion ar gyfer yr ardal glaswellt-goncrit. Nid oedd y Cyngor yn teimlo bod unrhyw beth ychwanegol i'w ychwanegu at yr adborth yr oedd S4C/BBC Cymru eisoes wedi'i dderbyn ac felly doedd dim angen mynd ar y teledu, ond bu i'r Clerc ymateb gan egluro bod modd dod o hyd i'n holl drafodaethau ynglŷn â'r maes parcio yn ein cofnodion ar wefan y Cyngor Tref.

**2. Ymholiad PROW** Mae llwybr y chwarelwr wedi gordyfu ac nid oes modd mynd heibio iddo oherwydd yr eithin. Mae James wedi bod yno ac wedi gwneud ychydig o waith torri er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.


**3. Gwybodaeth gyfredol gan CBS Conwy**

Mae angen i drigolion ar hyd y promenâd ddechrau ymgeisio am eu trwyddedau am ddim a llyfrynnau ymwelwyr taledig:

https://conwy-self.achieveservice.com/en/service/Llanfairfechan_Promenade_Resident_Parking

**12. E-bost.. yn gofyn i'r CT wneud cais i CBSC i weld...**

**Diwedd, brawddeg olaf: ( Rydw i'n teimlo bod y canlynol yn fwy cywir. Dw i'n siŵr y buaswn i neu rywun arall wedi mynd ar y teledu petai rywbeth pwysig i'w ychwanegu). Roedd y Cyngor o'r farn nad oedd unrhyw beth i'w ychwanegu i'r adborth yr oedd S4C/BBC Cymru eisoes wedi'i dderbyn ac felly doedd dim angen i fynd ar y teledu, ond bu i'r Clerc ymateb...**


Llanfairfechan Promenade Resident Parking

Information | Your Details | Parking Details | Declaration

**Resident Permits**

Valid to residents of Promenade, Caradog Place, Shore Road, and Glanmor Road in Llanfairfechan only, for 12 months from the date of issue. A maximum of 2 free permits allowed per household.

**Visitor Permits**

Valid to residents of Promenade, Caradog Place, Shore Road, and Glanmor Road in Llanfairfechan only, a maximum of 5 books allowed per year.

1 book of 10 cards = £12.50

**Should you have any queries please contact Parking Services on 01492 576622.**


**This will be valid from 28 July 2025.**

| Documents Required |
| --- |
| Utility bill and Council Tax bills must be submitted with this application. |
| Proof of vehicle ownership, i.e. V5 document, must be submitted with application |

**<u>4. Baw cŵn ar Ffordd Penmaenmawr</u> Trigolyn yn pryderu am y baw cŵn ar Ffordd Penmaenmawr. Cafodd bagiau baw cŵn eu gosod mewn ymateb ond cawsant eu tynnu allan yn syth a'u lledaenu o amgylch yr ardal. Mae'r Cyngor Tref wedi ymateb i'r trigolyn gyda'r ddolen ar gyfer adrodd am hyn i CBS Conwy**

**<u>5. Adroddiad Facebook o amheuaeth o garthffosiaeth</u> – y mater wedi'i gyfeirio at Dŵr Cymru am sylwadau:**

**Diolch am rannu hwn gyda mi – o ran yr un penodol yma – rydw i wedi bod mewn cysylltiad â thîm y safle yn Llanfairfechan ac roedden nhw eisiau egluro mai pibell goncrit ydy arllwysfa'r gwaith trin (yn y llun isod) felly nid ydy'r hyn sydd wedi'i ffilmio o arllwysfa'r gwaith trin (sydd wedi'i gylchu mewn coch isod). Mewn cylch melyn ydy o bosibl o ble cafodd hyn ei ffilmio oherwydd y ffens bren sydd i'w gweld, ond mae'n anodd dweud. Mae'r gwaith trin yn gweithredu fel yr arfer heb unrhyw broblemau cydymffurfio felly mae'n bosibl mai'r hyn sydd wedi'i ffilmio ydy malurion / ewyn y môr. Mae llun yn y sylwadau hefyd sy'n dangos ewyn y môr ar y draethlin.**







**Mae neges gan Dŵr Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol wedi'i threfnu er mwyn ceisio lleddfu pryderon trigolion. Nodwyd ei bod yn rhwystredig nad oes gan drigolion lawer o ffydd yn Nŵr Cymru a bod sawl myth ynghylch y sefyllfa go iawn.**

**<u>Eitem 13 Adroddiadau o gyfarfodydd</u>**

**1. Wythnos Gelfyddydau Llanfairfechan 2026 - mae trigolyn wedi sôn bod diddordeb ganddynt mewn cynnal ocsiwn gelfyddydau cyfrinachol a gweithgareddau cysylltiedig ym mis Awst 2026. Mae'n chwilio am wirfoddolwyr i ffurfio gweithgor i ddatblygu'r prosiect. Y cam cyntaf ydy ymgynghori gydag artistiaid lleol i weld a oes diddordeb, bydd hyn yn digwydd ym mis Medi.**

**<u>2. Cwrs hyfforddi Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Hydref 8fed a 9fed</u>. Cwrs deuddydd o hyd o 9yb-5yp a bydd angen i'r rhai sy'n cymryd rhan fynychu'r cwrs cyfan er mwyn cymhwyso. Mae am ddim i drigolion o'r ardal leol. Wedi'i ariannu gan Dŵr Anafon, y gobaith ydy ychwanegu cyrsiau eraill i'r prosiect fel Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd Sylfaenol ayb.**

**<u>3. Cyfarfod Blynyddol Neuadd Gymunedol Llanfairfechan</u> Roedd hwn yn llwyddiannus iawn lle cafwyd dau aelod newydd i'r pwyllgor a Thrysorydd newydd. Mae'r gwaith yn parhau i fynd rhagddi ar ddiweddaru isadeiledd yr adeilad gyda'r paneli solar i fod i gael eu gosod a'u cwblhau erbyn diwedd mis Awst. Mae cynllun newydd fydd yn caniatáu gwerthu trydan i brosiectau lleol yn hytrach na dim ond yn ôl i'r cyflenwr. Gallai hyn gyflwyno dewisiadau newydd i'r ysgol a'r llyfrgell fod ynghlwm â'r prosiect. Mae datblygiadau eraill yn cynnwys uwchraddio'r wyneb a'r arwyddion, deunydd ynysu newydd ac adnewyddu llawr y brif neuadd.**

**<u>4. Cyfarfod gyda chontractwyr sy'n gweithio ym Morfa Madryn</u> ac efallai bod rhai dewisiadau am gyllid i gwblhau'r gwaith ym Morfa Madryn yn ardal y cornchwiglod – cynlluniau i weithio mewn partneriaeth ar gyfer y dyfodol**

**<u>5.Dirprwy Faer yn mynychu Seremoni Ddinesig Bae Colwyn</u> Nodwyd ei fod yn ddigwyddiad rhwydweithio da ac yn ddigwyddiad braf**

**<u>Eitem 14. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w hystyried a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol</u>**

**<u>1. Rhannu cynnig am brosiect trydan dŵr yn Chwarel Penmaenmawr</u>**
**Roedd hwn yn brosiect ddaeth at ei gilydd gan drigolyn tua 15 mlynedd yn ôl. Nodwyd bod y chwarel yn hynod brysur ar y funud, felly mae hyn yn rhywbeth i'w ystyried yn y dyfodol.**
**<u>2. Ymosodiadau gan wylanod môr ar Ffordd Penmaenmawr</u> Nid ydy'r sefyllfa wedi gwella. Rhoddwyd gwybod i GBS Conwy am hyn a derbyniwyd yr wybodaeth ganlynol: Mewn ymateb i'ch adroddiad, buasem yn cynghori bod ymddygiad o'r fath bron bob amser oherwydd bod y gwylanod hŷn yn amddiffyn eu cywion. Yn ôl y gyfraith, fodd bynnag, caiff pob gwylan ei gwarchod. Mae hyn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i fwriadu i anafu neu ladd unrhyw wylanod neu ddinistrio neu ddifrodi unrhyw nyth sydd â chywion neu wyau ynddi. Ar ben hynny, yn anffodus nid ydym ni yn y Cyngor bellach yn cynnig unrhyw fath o Wasanaethau Rheoli Pla, felly nid ydym yn gallu cynorthwyo gyda'r mater hwn.**
**Wedi dweud hynny, os gallwch gadarnhau ar ba adeilad y mae'r gwylanod yn nythu, gallai fod yn gyfrifoldeb ar berchennog yr adeilad i gymryd camau rhesymol i ddelio â'r broblem, yn enwedig mewn amgylchiadau lle mae gwylanod yn amlwg yn ymosod ar bobl yn gorfforol i'r graddau y mae modd dangos eu bod yn peri perygl i ddiogelwch neu iechyd y cyhoedd.**
**Os ydy hyn yn wir, gall perchennog yr adeilad gyfarwyddo contractwr rheoli pla cymwys i gael trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru** Cyfoeth Naturiol Cymru / trwyddedau penodol adar **i ymdrin â'r gwylanod. Drwy wneud hynny, rhaid i'r person ofalu eu bod yn cydymffurfio â'r holl amodau yn y drwydded a rhaid i unrhyw berson sy'n dibynnu ar y drwydded hon fod yn fodlon yn gyntaf bod dulliau nad ydynt yn angheuol o ddatrys y broblem yn aneffeithiol neu'n anymarferol.**
**Mae hon yn broblem sylweddol ledled y dref ar hyn o bryd ac efallai ei bod yn un nad oes modd mynd i'r afael â hi.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:45yh.**